

# RHYBUDD O GYNIGION TREFNIADAETH YSGOLION O DAN DDEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

## CYNGOR SIR Y FFLINT AC ESGOBAETH LLANELWY

Rhoddir rhybudd yn unol ag Adrannau 43 a 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 bod Cyngor Sir y Fflint yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND ("yr Awdurdod Lleol"), wedi ymgynghori â'r unigolion gofynnol, yn cynnig:-

- **Cau Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm, Ffordd Gledlom, Licswm, Treffynnon, Sir y Fflint, CH8 8NF ("Ysgol wedi Cau") o 31 Awst 2020. Caiff yr Ysgol sydd wedi Cau ei chynnal gan yr Awdurdod Lleol.**

Rhoddir hysbysiad hefyd, yn unol ag Adrannau 41 a 48 Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, bod Esgobaeth Llanelwy, Swyddfa'r Esgobaeth, Stryd Fawr, Llanelwy, Sir Ddinbych, LL17 0RD ("Yr Esgobaeth"), wedi ymgynghori â'r unigolion gofynnol, yn cynnig:-

- **Sefydlu ysgol gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru i fechgyn a genethod rhwng 3 ac 11 oed ("Ysgol Newydd Arfaethedig") o 1 Medi 2020 ar safle'r Ysgol sydd wedi Cau. Bydd gan yr Ysgol Newydd Arfaethedig gymeriad crefyddol yr Eglwys yng Nghymru. Bydd yr Ysgol Newydd Arfaethedig yn ysgol Cyfrwng Saesneg Categori 5 a chaiff ei chynnal gan yr Awdurdod Lleol.**

### Ysgol wedi Cau

Cynhaliodd yr Awdurdod Lleol gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae'r adroddiad ar yr ymgynghoriad, sydd yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw, ymatebion y cynigydd, a barn gan Estyn ar gael yn [21stcenturyschools@flintshire.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@flintshire.gov.uk), fel arall gallwch ofyn am gopi drwy anfon e-bost at [21stcenturyschools@flintshire.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@flintshire.gov.uk)

Bwriedir gweithredu'r cynnig ar 31 Awst 2020.

Yr ysgol y gall disgyblion yr Ysgol sydd wedi Cau ei mynychu, yn amodol ar unrhyw drefniadau derbyn, yw'r Ysgol Newydd Arfaethedig a fydd yn gweithredu o'r un safle â'r Ysgol sydd wedi Cau. Bydd yr un categori iaith yn berthnasol, sef Cyfrwng Saesneg Categori 5.

Gallai'r rhieni/gofalwyr fynegi ffafriaeth tuag at ysgol arall a bydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio gydag unrhyw ddewis o'r fath yn amodol ar adran 86 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Bydd trefniadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol ar gyfer disgyblion yn cael eu pennu yn unol â Pholisi Cymhwysedd Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr Awdurdod Lleol.

### **Ysgol Newydd Arfaethedig**

Cynhaliodd yr Esgobaeth (ynghyd â'r Awdurdod Lleol) gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae'r adroddiad ar yr ymgynghoriad, sydd yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw, ymatebion y cynigydd, a barn gan Estyn ar gael yn [21stcenturyschools@flintshire.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@flintshire.gov.uk), fel arall gallwch ofyn am gopi drwy anfon e-bost at [21stcenturyschools@flintshire.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@flintshire.gov.uk)

Bwriedir gweithredu'r cynnig ar 1 Medi 2020.

Bydd yr Ysgol Newydd Arfaethedig yn ysgol wirfoddol a gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru, a bydd iddi gymeriad crefyddol.

Bydd yr Ysgol Newydd Arfaethedig yn gweithredu o'r un safle ac yn gwasanaethu'r un ystod oedran â'r Ysgol sydd wedi Cau, ar gyfer bechgyn a genethod rhwng 3 ac 11 oed. Bydd hefyd yn yr un categori iaith â'r Ysgol sydd wedi Cau, sef Cyfrwng Saesneg Categori 5.

corff llywodraethu'r ysgol fydd yr awdurdod derbyn. Bydd yr Ysgol Newydd Arfaethedig yn mabwysiadu ei pholisi derbyn ei hun gyda chefnogaeth yr Eglwys yng Nghymru. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnal yr Ysgol Newydd Arfaethedig.

Y nifer derbyn yn yr Ysgol Newydd Arfaethedig yn y flwyddyn gyntaf y gweithredir y cynigion ynddi fydd 10. Capasiti disgyblion yr Ysgol Newydd Arfaethedig fydd 71.

Bydd trefniadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol ar gyfer disgyblion yn cael eu pennu yn unol â Pholisi Cymhwysedd Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr Awdurdod Lleol o'r dyddiad gweithredu.

Gallai'r rhieni/gofalwyr fynegi ffafriaeth tuag at ysgol arall a bydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio gydag unrhyw ddewis o'r fath yn amodol ar adran 86 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Gweithredir yr Ysgol Newydd Arfaethedig ar y cyd gan yr Esgobaeth a'r Awdurdod Lleol a byddant yn gweithio gyda'i gilydd i'w gweithredu.

### **Ysgol sydd wedi Cau ac Ysgol Newydd Arfaethedig**

Mewn perthynas â'r Ysgol sydd wedi Cau a'r Ysgol Newydd Arfaethedig, o fewn cyfnod o 28 diwrnod ar y lleiaf, o'r dyddiad y cyhoeddir y cynigion, sef **14 Chwefror 2020** gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion.

Dylid anfon gwrthwynebiadau drwy e-bost ar neu'n ysgrifenedig at Claire Homard, Prif Swyddog, Addysg ac Ieuencid, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND.

Noder y byddai'n ddefnyddiol pe bai unrhyw wrthwynebiad sy'n cael ei anfon drwy e-bost neu'r post yn cynnwys enw llaw a chyfeiriad post y sawl sy'n gwrthwynebu.

Llofnod

Handwritten signature of Claire Homard in cursive script.

**Claire Homard**  
**Prif Swyddog - Addysg ac Ieuencid**  
**Ar ran Cyngor Sir y Fflint**

Llofnod

Handwritten signature of Rosalind Williams in cursive script, with a horizontal line underneath.

**Rosalind Williams**  
**Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes**  
**Ar ran Esgobaeth Llanelwy**

14 Ionawr 2020

## **Nodyn Esboniadol**

**(Nid yw'r nodyn esboniadol yn ffurfio rhan o'r Rhybudd ond mae'n cael ei gyflwyno fel eglurhad).**

- a. Nodwyd y rhesymau dros y cynigion a nodwyd yn y Rhybudd yn y ddogfen ymgynghori a ddsbarthwyd ym mis Medi 2019.
- b. Mae copïau o'r ddogfen ymgynghori, yr adroddiad ymgynghori, Polisi Cymhwysedd Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr Awdurdod Lleol a Llyfryn Gwybodaeth i Rieni yr Awdurdod Lleol (yn nodi gweithdrefnau derbyn ysgolion) ar gael yn y cyfeiriad a nodwyd ym mharagraff 1 y Rhybudd ac ar wefan yr Awdurdod Lleol yn [www.siryfflint.gov.uk](http://www.siryfflint.gov.uk)
- c. Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i'r Awdurdod Lleol gau ysgol gymunedol a phŵer i'r Esgobaeth agor ysgol wirfoddol a gynorthwyir. Yn unol â hynny, mae'r Awdurdod Lleol a'r Esgobaeth wedi gweithio ar y cyd ar y cynigion a byddant yn gweithio gyda'i gilydd i'w gweithredu pe baent yn cael eu cymeradwyo.
- d. Bydd cyllid dirprwyol ar gyfer yr Ysgol Newydd Arfaethedig yn unol â fformiwla gyllid lleol yr Awdurdod Lleol ar gyfer ysgolion.
- e. Bydd trefniadau cludiant o'r cartref i'r ysgol sydd ar waith ar gyfer disgyblion sy'n mynychu'r Ysgol sydd wedi Cau a fydd yna'n mynychu'r Ysgol Newydd Arfaethedig yn cael eu penderfynu yn unol â Pholisi Cymhwysedd Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr Awdurdod Lleol fel ag y mae ar ddyddiad gweithredu'r cynigion (fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd).